# Datblygu eich gweithlu

## Cefnogwch Ogledd Cymru fwy gwyrdd




**Mae Go Gwyrdd yn cysylltu cyflogwyr gwyrdd sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd â phobl ifanc brwdfrydig rhwng 16-30 oed sydd eisiau gyrfaoedd sy'n helpu i ddiogelu'r blaned.**

Gweithio ar y cyd i greu dyfodol mwy gwyrdd a theg ar gyfer pobl ifanc a busnesau ar draws Gogledd Cymru.

go gwyrdd

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

Ariennir Priosect 'Go Gwyrdd' drwy'r Gronfa Asedau Segur, sy'n cael ei darparu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

# Croeso i Go Gwyrdd

Mae Go Gwyrdd yn brosiect pum mlynedd cyffrous sy'n cefnogi pobl ifanc sydd ag anableddau a'r rheiny sydd o gymunedau ethnig lleiafrifol i archwilio, profi a chael rolau sy'n helpu i warchod y blaned.

Ariennir Priosect 'Go Gwyrdd' drwy'r Gronfa Asedau Segur, sy'n cael ei darparu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

## Gweithio mewn partneriaeth ar gyfer Gogledd Cymru fwy gwyrdd

Rydym yn gyffrous o fod yn cael gweithio gyda sefydliadau partner allweddol sy'n rhannu eu hamser, adnoddau ac arbenigedd i greu llu o gyfleoedd ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

Rydym yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr o'r un anian ar draws Gogledd Cymru i greu newid ystyrlon a thymor hir – ar gyfer pobl ifanc, busnesau a'r economi werdd ehangach.

## Pwy mae Go Gwyrdd yn ei gefnogi?

Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc 16-30 oed ar draws Gogledd Cymru sydd wedi'u tangynrychioli'n sylweddol yn sectorau gwyrdd - gan gynnwys y sectorau amgylcheddol, adeiladu ac amaethyddiaeth.

Gall cyfranogwyr fod:

- ag anabledd neu wahaniaeth dysgu
- â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol
- yn niwroamrywiol
- o gymunedau ethnig lleiafrifol
- yn fenywod sy'n mynd i mewn i sectorau lle mae menywod wedi'u tangynrychioli
- ar gam cynnar o'u gyrfa neu'n hynod gymwys ond â diffyg profiad yn y gweithle



## Sut rydym yn eu cynorthwyo

- Ymweliadau safle, diwrnodau blasu a chysgodi gweithwyr
- Sgyrsiau i ysbrydoli a sesiynau holi ac ateb gyda gweithwyr proffe
- Hyfforddiant sgiliau a hyder
- Hyfforddiant a chyrsiau byr sy'n benodol i'r diwydiant
- Profiad gwaith di-dâl (1-8 wythnos)
- Eu cael i mewn i gyflogaeth

## Byddwch yn rhan o'r Gymuned Go Gwyrdd

A ydych eisiau bod yn rhan o rywbeth cyffrous a chadarnhaol sy'n newid bywydau pobl ifanc ac sy'n cefnogi eich recriwtio, hyfforddiant neu ddatblygiad gweithlu?

- A ydych chi'n awyddus i gysylltu gyda chyflogwyr eraill o'r un anian ac amrywio eich gweithlu?
- A ydych chi'n wynebu bylchau o ran sgiliau neu heriau recriwtio?
- A ydych chi'n perthyn i grŵp sydd wedi'i dangynrychioli ac eisiau ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf?

Os ydych chi, byddem wrth ein bodd yn gweithio gyda chi...

Rydych yn derbyn y pecyn hwn am ein bod yn credu y gall eich busnes chwarae rhan werthfawr yn y gwaith hwn – ac, yn bwysig iawn, y gall eich busnes elwa ar y cymorth yr ydym yn ei gynnig. P'un a ydych eisiau cymorth gyda recriwtio, hyfforddiant, amrywio eich gweithle, neu gysylltu gyda thalent leol, rydym yma i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd.

## A ydy fy musnes yn gymwys? Nid ydym yn siŵr os ydym yn 'wyrdd'

Mae busnes sydd â "meddylfryd gwyrdd" yn cynnwys unrhyw sefydliad sy'n cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at:

- leihau allyriadau carbon neu wastraff
- adfer neu warchod byd natur
- helpu cymunedau i addasu i newid yn yr hinsawdd



Noder: efallai nad yw eich sefydliad yn 'wyrdd' ond gall y swydd fod yn wyrdd!

Ddim yn siŵr? Anfonwch e-bost atom **GoGwyrdd@rcs-wales.co.uk** – rydym yn hapus i'ch cynghori.

# Yr hyn rydym yn ei gynnig i Gyflogwyr



## Cymorth Recriwtio a Gweithlu

- Mynediad at bobl ifanc brwdfrydig, sydd wedi'u cefnogi ac yn barod i fynd i mewn i fyd gwaith.
- Cefnogaeth gan Hyfforddwyr Gwaith pwrpasol sy'n helpu cyfranogwyr i ymgartrefu mewn rolau a gweithredu fel eich prif gyswllt.
- Lleoliadau 6–12 mis wedi'u hariannu a chymorthdaliadau cyflog ar gyfer sefydliadau sydd â phrinder sgiliau (telerau ac amodau yn berthnasol).

## Hyfforddiant Staff a Chymorth Busnes

- Hyfforddiant o safon sydd wedi'i ariannu'n llawn a all gynnwys:
  - Hyfforddiant recriwtio cynhwysol
  - Hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd a niwroamrywiaeth
- Templedi polisi, canllawiau arfer gorau, ac adnoddau megis Cynlluniau Gweithredu Lles
- Cefnogi eich busnes i gyflawni statws Hyderus o ran Anabledd

## Rhwydwaith Gefnogol o Gyflogwyr

- Ymunwch â rhwydwaith sy'n tyfu o fusnesau sy'n ymroddedig i gefnogi pobl ifanc a chyfrannu at ddyfodol sy'n fwy gwyrdd a chynhwysol.
- Mynediad at ddigwyddiadau rhwydweithio, hyfforddiant grŵp gyda phobl o'r un anian a digwyddiadau dathlu.

## Arddangos eich Ymrwymiad

- Arddangos eich logo ar ein gwefan a'i rannu ar draws ein rhwydweithiau.
- Cyfleoedd i gael eich amlygu ar ein cyfryngau cymdeithasol neu gael eich cynnwys mewn straeon "cwrdd â'r cyflogwr".
- Arddangos eich arweinyddiaeth mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn yr economi werdd leol.

## Ffyrdd y Gallwn Gefnogi'r Prosiect

Mae hyd yn oed cyfraniadau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr. Gallwch:

- Gynnig ymweliad gweithle neu gynnal taith dywys i grŵp bach
- Rhoi sgwrs neu gael eich cynnwys mewn astudiaeth achos fer
- Darparu sesiwn blasu gwaith (1-3 diwrnod), profiad gwaith, neu sesiwn fer yn seiliedig ar sgiliau
- Mentora person ifanc (darperir briffio a chefnogaeth lawn)
- Cynnig cyfle lleoliad gwaith wedi'i ariannu neu swydd (lle bo'n briodol)

Anogir a chroesawir busnesau bach a rhai newydd – mae rhannu eich profiad neu gymryd rhan mewn darn sylw yn hynod werthfawr, hyd yn oed os na allwch gynnig lleoliadau eto.

## Dechrau arni

Hoffem glywed gennych chi! Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gyfleoedd gwirfoddoli neu swyddi gwag:

- Cwblhewch ein ffurflen ymholi cod QR i'r wefan
- Anfonwch e-bost atom: GoGwyrdd@rcs-wales.co.uk
- Cofrestrwch i dderbyn cylchlythyron a diweddariadau bob mis
- Ymunwch â'r gymuned Go Gwyrdd a helpwch i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o dalent werdd



## Ydych chi'n adnabod person ifanc a allai elwa?

Os ydych yn adnabod person ifanc y gallai elwa ar hyn – aelod o'r teulu, cymydog, cydweithiwr neu ffrind – gallwch ei gyfeirio at ein tudalen wybodaeth i bobl ifanc a'n ffurflen gofrestru.